

2015 Rhif 1285 (Cy. 92)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Llan-non, Ceredigion)
(Cyfyngiadau Traffig Dros Dro a
Dim Goddiweddyd) 2015

Gwnaed

26 Mawrth 2015

Yn dod i rym

1 Ebrill 2015

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a’i wahardd ar ddarn penodedig o’r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2015. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Llan-non, Ceredigion) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2015.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 07:30 o’r gloch ar 1 Ebrill 2015 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn o’r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw’r darn o gefnffordd yr A487 yn Llan-non yn Sir Ceredigion sy’n ymestyn o bwynt 300 o fetrau i’r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â’r

C1116 i gyfeiriad y de hyd at bwynt 1.6 o gilometrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r U1412.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad a Chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

Atal Dros Dro

7. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A487) Abergwaun i Fangor (Llan-non, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2005(3) drwy hyn wedi eu hatal mewn cysylltiad â'r darn o'r gefnffordd yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd y cyfyngiadau a bennir yn erthygl 4 a 5 yn weithredol.

Cymhwyso

8. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi,
Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion
Cymru.

Dyddiedig 26 Mawrth 2015

R Morgan

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
- (2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (3) O.S. 2005/2041/Cy.163